# Fframwaith Adfywio Ardal Ni
CYNLLUN ADFYWIO LLEOL

## TYWYN & ARDAL BRO DYSYNNI



Ebrill 2025


CYNGOR GWYNEDD

# CYFLWYNIAD

# 01

Yn 2021, cytunodd Bwrdd Adfywio Cyngor Gwynedd i ddatblygu Fframwaith Adfywio newydd. Bwriad y Fframwaith yw sicrhau bod camau rhagweithiol yn eu lle er mwyn sicrhau cydweithio i wella'r ardaloedd yn economaidd, yn amgylcheddol, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol.

Yn rhan o'r Fframwaith hwnnw mae'r sir wedi ei rhannu yn 13 Ardal Adfywio Lleol a chynllun gweithredu wedi ei greu ar gyfer pob un o'r ardaloedd. Dyma'r cynllun gweithredu ar gyfer ardal Tywyn & Bro Dysynni.




Ardaloedd Adfywio Lleol:
Ardal Bangor, Ardal Dyffryn Ogwen, Ardal Bro Peris, Ardal Caernarfon, Ardal Bro Lleu / Nantlle, Ardal Pen Llŷn, Ardal Pwllheli, Ardal Porthmadog / Penrhyndeudraeth, Ardal Bro Ffestiniog, Ardal Bro Ardudwy, Ardal Bala Penllyn, Ardal Dolgellau ac Ardal Tywyn & Bro Dysynni.

Mae 'Adfywio' wedi ei ddiffinio fel ymdrech fwriadol i wella ardaloedd yn economaidd, yn amgylcheddol, yn gymdeithasol neu yn ddiwylliannol. Pwysleisiwyd hefyd bod rôl allweddol i gymunedau adnabod blaenoriaethau lleol; a chyfraniad sefydliadau lleol mewn datblygu cynlluniau gweithredu.

Wedi proses ymgysylltu yn 2022 a gwrando ar farn pobl lleol, mae'r cynllun yn cynnwys gweledigaeth a blaenoriaethau pob cymuned ar gyfer y dyfodol. Gyda gweithio mewn partneriaeth yn greiddiol i'r cynllun y gobaith yw y bydd yn rhoi trywydd clir i gamau all ddod a newid cadarnhaol i gymunedau fydd yn newid bywydau er gwell. Nod y cynllun felly yw bod yn ganllaw i fuddsoddiad yn lleol yn ogystal â dylanwadu ar benderfyniadau polisi ym mhob maes - o iechyd ac addysg i drafnidiaeth a chynllunio.

# FFRAMWAITH ADFYWIO GWYNEDD

02

Mae ein Fframwaith Adfywio ar gyfer Gwynedd yn canolbwyntio ar ymdrechion bwriadol i wella ardaloedd yn economaidd, yn amgylcheddol, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol er mwyn creu cymunedau iach, llewyrchus, egniol a chynaliadwy gan sicrhau mewnbwn a chyfraniad ystod eang o sefydliadau lleol.

## Gweledigaeth


**Datblygu a chefnogi cymunedau cynaliadwy sy'n iach, llewyrchus ac egniol gyda'r hyder i fentro, a gyda'r awydd a'r gallu i gyfrannu eu hatebion eu hunain i anghenion lleol ac i fanteisio ar gyfleoedd newydd**

## Ein Gwerthoedd

**Cynwysoldeb:** byddwn yn cynnwys rhagor o bobl yn ein gwaith
**Ymddiriedaeth**: byddwn yn parchu ac yn ymddiried yn y bobl rydym yn gweithio gyda nhw
**Cydweithio:** byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i gyflawni
**Meddwl am y System Gyfan :** byddwn yn ystyried effaith lawn ein gweithredoedd
**Awydd am Newid :** byddwn yn herio confensiwn ac yn gweithredu.

## Ein Ffyrdd o Weithio

- Ar sail Asedau: gan adeiladu ar gryfderau'r ardal
- Cyd-berchnogaeth: gan rannu pŵer a'r cyfrifoldeb am ein dyfodol
- Datblygu Parhaus: byddwn bob amser yn ceisio newidiadau cadarnhaol
- Cymuned yn arwain: byddwn yn gweithredu dan arweiniad y Gymuned




Byddwn yn gweithredu'r Fframwaith Adfywio yn unol â Phum Ffordd o Weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015



# GWAITH YMGYSYLLTU ARDAL NI 03

Bwriad ymgyrch ymgysylltu Ardal Ni oedd cynnal sgwrs hefo cymunedau lleol er mwyn adnabod beth sy'n bwysig i drigolion a sut hoffent weld eu hardal yn datblygu dros y 10-15 mlynedd nesaf




Mae ymgynghori ac ymgysylltu gyda phob cymuned wedi bod yn rhan allweddol o lunio'r cynlluniau gweithredu. Roedd tri cham i'r ymgynghori a gynhaliwyd dan faner 'Ardal Ni 2035'

- Cynhaliwyd trafodaeth cychwynnol gyda chynghorau tref a chymuned ynghyd â mudiadau, grwpiau a chynghorwyr lleol gan dderbyn 15 o ymatebion ar syniadau ynglŷn â beth ddylai fod yn flaenoriaethau lleol ar gyfer yr ardal yn y cyfnod hyd at 2035. Defnyddiwyd yr ymatebion yma fel sail ar gyfer yr ail-gam o ymgysylltu ehangach gyda'r cyhoedd.
- Trefnwyd ymgyrch ymgysylltu cyhoeddus er mwyn rhoi cyfle i breswylwyr leisio barn ynglŷn â'r heriau sy'n wynebu eu hardal nhw, yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw a pha ddatblygiadau maen nhw am weld yn eu hardal dros y 10 i 15 mlynedd nesaf. Derbyniwyd 298 o ymatebion o ardal Tywyn & Bro Dysynni drwy holiadur ar-lein a phapur
- Yn dilyn sesiynau cyhoeddus cynhaliwyd gweithdai gyda sefydliadau i drafod cynlluniau gweithredu gan ganolbwyntio ar y materion a blaenoriaethau oedd wedi eu hadnabod yn lleol.

## Manylion Pellach

Mae gwybodaeth digidol wedi ei osod ar safle we Cyngor Gwynedd : https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Dweud-eich-Dweud/Canlyniadau/2022/Canlyniadau-Ardal-Ni/Canlyniadau-Arolwg-Ardal-Ni-2035.aspx

Mae manylion pellach ar gael ar gyfer pob un o'r 13 ardal adfywio yn cynnwys
- Asesiadau Ardal (crynodeb ystadegol o'r ardal)
- Adroddiad Trafodaethau Cychwynnol (Cam 1)
- Adroddiad Canlyniadau Ymarferiad Ymgysylltu Cyhoeddus (Cam 2)

Yn unol â'r Gwerthoedd a'r Ffordd o Weithio sydd wedi eu hadnabod, mae'r wybodaeth ac adborth o waith ymgysylltu Ardal Ni wedi ei ddefnyddio wrth adnabod blaenoriaethau sirol a lleol.

# CYNLLUNIAU SIROL A STRATEGOL

04

## Bwrdd Gwasanethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Mon




Cafodd canlyniadau Ardal Ni eu ystyried wrth baratoi asesiadau llesiant ardaloedd lleol. Ar gyfer cynllun 2023-28 tri Amcan Llesiant:

- Lliniaru effaith tlodi ar lesiant ein Cymunedau
- Lles a llwyddiant ein plant a phobl ifanc
- Cefnogi ein cymunedau i symud tuag at Sero Net Carbon.

## Cynllun Cyngor Gwynedd 2023 - 2028

Mae'r cynllun yn cynnwys cyfres o brosiectau ar gyfer y pum mlynedd nesaf o dan saith maes blaenoriaeth




**GWYNEDD YFORY**
Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc

**GWYNEDD LEWYRCHUS**
Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng

**GWYNEDD GLYD**
Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau

**GWYNEDD OFALGAR**
Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau

**GWYNEDD GYMRAEG**
Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned

**GWYNEDD WERDD**
Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd

**GWYNEDD EFFEITHLON**
Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon

## Cynllun Eryri




Cynllun Rheolaeth Statudol sydd wedi ei ddatblygu gan Awdurdod Parc Cenedlaethol mewn partneriaeth gyda ystod o bartneriaid sydd yn canolbwyntio ar dri maes, sef

**Amgylchedd**
**Iechyd, Lles a Chymunedau**
**Economi Eryri**

## Awdurdodau Cynllunio Lleol

Bydd gwybodaeth yn cael ei ystyried wrth ddatblygu gwaith cychwynnol
- Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Mon 2015 - 2026
- Adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Eryri (2016 – 2031)

# ARDAL TYWYN & BRO DYSYNNI HEDDIW

# 05





Mae Tywyn & Bro Dysynni wedi ei leoli yn rhan deheuol o Wynedd, sydd yn ymgorffori dyffryn hanesyddol Dysynni ac ardaloedd arfordirol cyfagos yn cynnwys tref Tywyn. Mae'r ardal yn cynnwys cymunedau Tywyn, Aberdyfi, Bryncrug, Corris, Llangelynnin, Llanegryn, Llanfihangel y Pennant a Pennal.

## Crynodeb Ardal Tywyn & Bro Dysynni mewn

### Cryfderau

*Yn cymharu yn well na chyfartaledd Cymru neu Wynedd*

- **84 –** disgwyliad oes merched, yn uwch na ffigwr Cymreig o 82.3
- **80.1 –** disgwyliad oes dynion, yn uwch na ffigwr Cymreig o 78.3
- **1.29 –** (cyfradd fesul 100) ymddygiad gwrthgymdeithasol gofnodwyd gan yr Heddlu sydd yn is na ffigwr Gwynedd o 2.52 a Chymru 2.55
- **77%** - canran o'r boblogaeth oedran 26-64 sy'n weithgar economaidd sydd yn uwch na'r ffigwr Cymreig o 75%
- **13%** o bobl mewn amddifadedd incwm sydd yn gyson a chyfartaledd Gwynedd (13%) ond yn is na Chymru (16%

*Ffynhonnell : Adroddiad Ymgynghoriaeth Burum 2021. Noder fod data wedi ei addasu oherwydd gwahaniaethau rhwng ffiniau rhai ardaloedd adfywio a ffiniau ffynonellau data)*

### Gwendidau

*Ddim yn cymharu gystad a chyfartaledd Cymru neu Wynedd*

- **15.8%** - plant 4-5 oed sydd yn ordew sydd yn uwch na chyfartaledd Cymru o 11.8%
- **5%** swyddi gwerth uchel yn is na Gwynedd (11%) a Chymru (13%)
- **21%** o dai yn gartrefi gwyliau, sydd yn uwch na chyfartaledd Cymru (3%) a chyfartaledd Gwynedd (11%)
- **39%** - sy'n medru siarad Cymraeg sydd yn is na'r ffigwr Gwynedd (65%)
- **26.2%** - canran o'r boblogaeth sy'n byw gyda salwch tymor hir neu anabledd sydd yn uwch na 20.5% ar gyfer Gwynedd

## Barn Trigolion am yr ardal

### Beth sydd yn dda am yr ardal ?

- Yr amgylchedd naturiol ac hwylustod at fynyddoedd, lan y môr a chefn gwlad (259)
- Amgylchedd yr ardal - Aer glan, dim llygredd ac ati (193)
- Mae'n ardal ddiogel (188)
- Ysbryd a chyfeillgarwch cymunedol (130)
- Mae'r ardal yn le da i fagu teulu (112)
- Treftadaeth a hanes yr ardal (110)
- Cyfleusterau hamdden yr ardal - Canolfan Hamdden, Sinema, Llyfrgell (102)
- Gallu'r ardal i ddenu twristiaeth er budd economaidd (97)
- Mae safon ffyrdd yr ardal yn dda (60)

*(Ffynhonnell : Ymatebion Ardal Ni Tywyn & Bro Dysynni. Nifer o ymatebion wedi eu derbyn mewn cromfachau)*

### Beth sydd yn ddim dda am yr ardal ?

- Pryder yn lleol am ddarpariaeth iechyd a lles a gofal yn yr ardal (174)
- Ardal ddim yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth - Cyngor Gwynedd wedi anghofio am yr ardal neu gyda dim ymwybyddiaeth o anghenion lleol yr ardal (154)
- Diffyg tai addas a fforddiadwy i bobl leol i'w prynu neu eu rhentu (134)
- Nifer uchel o ail dai a thai haf yn yr ardal (122)
- Diffyg swyddi cyflog uchel a llawn amser (116)
- Dim Canolfan Ailgylchu yn yr ardal (111)
- Mae'r economi leol yn fregus – diffyg adnoddau a siopau yn cau (108)
- Trafnidiaeth gyhoeddus yn annigonol yn yr ardal (102)
- Mae tlodi a chostau byw uchel yn broblem yn yr ardal (65)

# ARDAL TYWYN & BRO DYSYNNI YMHEN 15 MLYNEDD



Mae'r rhestr isod yn dangos ymatebion a dderbyniwyd yn ystod ymgynghoriad cyhoeddus 'Ardal Ni'. Mae'r materion wedi eu gosod yn ôl y nifer o ymatebion a dderbyniwyd, gyda'r materion a rhestrir gael eu hadnabod o leiaf 1 allan o 5 ymateb



## Prif faterion lleol wedi eu hadnabod yn ystod gwaith Ardal Ni

### Pa newidiadau fyddech chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn Ardal Tywyn & Bro Dysynni dros y 15 mlynedd nesaf fyddai'n gwneud yr ardal yn well lle i fyw ynddi?

| Ranc | Prif Faterion / Blaenoriaethau | Nifer |
|---|---|---|
| 1 | Cynlluniau i gryfhau'r adnoddau iechyd a gofal yn lleol | 186 |
| 2 | Cynlluniau i ddatrys mater Gwesty'r Corbett yn Nhywyn | 142 |
| 3 | Cynlluniau i sicrhau tai sy'n addas i anghenion bobl leol | 118 |
| 4 | Mae angen Canolfan Ailgylchu yn Nhywyn | 110 |
| 5 | Cynlluniau i ddatblygu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus sy'n hygyrch, integredig ac addas i anghenion lleol yr ardal | 98 |
| 6 | Cynlluniau i gefnogi busnesau a mentrau lleol a hyrwyddo cynnyrch lleol byddai hefyd yn denu mwy o fusnesau fydd yn creu swyddi gwerth uchel i'r ardal | 93 |
| 7 | Cynlluniau ar gyfer darparu gweithgareddau a chefnogi pobl ifanc | 86 |
| 8 | Cynlluniau i sicrhau gwaith a swyddi gwerth uchel | 86 |
| 9 | Cyflwyno deddfwriaeth i reoli'r maes tai haf ac ail gartrefi yn effeithiol | 82 |
| 10 | Ardal yn fwy gwyrdd - ynni adnewyddol, lleihau'r defnydd o blastig, pwyntiau gwefru ceir, cynlluniau plannu coed ac ati | 69 |
| 11 | Cynlluniau i gryfhau'r darpariaeth gofal i bobl hyn a phobl fregus | 63 |

# CYNLLUN GWEITHREDU



Rhagwelir y bydd cyfle i adolygu trefniadau cydweithio rhwng sefydliadau gweithredol yn yr ardal. Drwy weithio mewn partneriaeth bydd cyfle i gyd-lynu gweithgareddau isod, ac i ymateb i fylchau drwy gynllunio gweithgareddau ychwanegol

| Prif Fater | Rhif | Prosiect | Arwain | Partneriaid | Statws | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **B1. Cynlluniau i gryfhau'r adnoddau iechyd a gofal yn lleol** | 1.1 | Ysbyty Tywyn - ail-agor Uned Man Anafiadau | Bwrdd Iechyd | Sefydliadau lleol | Gweithredol | Bl 1-2 |
| | 1.2 | Hwb Cefnogi Pobl | Cyngor Gwynedd | Asiantaethau | Gweithredol | Bl 1-2 |
| **B2. Cynlluniau i ddatrys mater Gwesty'r Corbett yn Nhywyn** | 2.1 | Rhaglen Eiddo Gwag - achos gorfodaeth | Cyngor Gwynedd | | Gweithredol | Bl 1-2 |
| **B3. Cynlluniau i sicrhau tai sy'n addas i anghenion bobl leol** | 3.1 | Cynllun Gweithredu Tai Cyngor Gwynedd | Cyngor Gwynedd | Partneriaid Tai Gwynedd, Llywodraeth Cymru, Trydydd Sector | Gweithredol | Bl 1-5 |
| | 3.2 | Cynllun Eiddo Swyddfa Bost Aberdyfi | Aberdyfi Community Projects | Grwpiau lleol | Datblygol | Bl. 1-2 |
| **B4. Mae angen Canolfan Ailgylchu yn Nhywyn** | 4.1 | Dim prosiect wedi ei adnabod | | | | |
| **B5. Cynlluniau i ddatblygu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus sy'n hygyrch, integredig ac addas i anghenion lleol yr ardal** | 5.1 | Gwynedd Werdd : Trafnidiaeth Gyhoeddus (Cynllun Sirol) | Cyngor Gwynedd | Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru a Darparwyr | Rhagbaratoi | Bl 3-5 |
| | 5.2 | Llwybrau Teithiau Llesol : Tywyn - Aberdyfi | Cyngor Gwynedd | Llywodraeth Cymru | Datblygol | Bl 1-2 |
| | 5.3 | Gwasanaeth Bws Fflecsi ardal Tywyn | Cyngor Gwynedd | Llywodraeth Cymru | Rhagbaratoi | Bl 1-2 |

# CYNLLUN GWEITHREDU (PARHAD)

08

Rhagwelir y bydd cyfle i adolygu trefniadau cydweithio rhwng sefydliadau gweithredol yn yr ardal. Drwy weithio mewn partneriaeth bydd cyfle i gyd-lynu gweithgareddau isod, ac i ymateb i fylchau drwy gynllunio gweithgareddau ychwanegol

| Prif Fater | Rhif | Prosiect | Arwain | Partneriaid | Statws | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **B6. Cynlluniau i gefnogi busnesau a mentrau lleol a hyrwyddo cynnyrch lleol byddai hefyd yn denu mwy o fusnesau fydd yn creu swyddi gwerth uchel i'r ardal** | 6.1 | Gwynedd Lewyrchus – Cronfa Datblygu Busnes | Cyngor Gwynedd | Llywodraeth DU | Datblygol | bl. 1-2 |
| | 6.2 | Gwynedd Lewyrchus – Canol Trefi | Cyngor Gwynedd | Llywodraeth Cymru, Sefydliadau lleol | Datblygol | bl. 1-2 |
| | 6.3 | Ail-ddatblygu Cei Aberdyfi | Cyngor Gwynedd | Llywodraeth Cymru | Gweithredol | Bl 1-2 |
| | 6.4 | Sied Treftadaeth, Wharf Station, Tywyn | Rheilffordd Tal-y-Llyn | Loteri Genedlaethol | Datblygol | Bl 3-5 |
| | 6.5 | Plaza Canolog Tywyn | Cyngor Tref. Chamber Tourism and Commerce | | Rhagbaratoi | Bl. 3-5 |
| | 6.6 | Cynllun Twristiaeth Cynaliadwy lleol | Cyngor Gwynedd | Parc Cenedlaethol Eryri | Datblygol | Bl. 1-2 |
| | 6.7 | Cynlluniau sirol megis Ailwefru, Dyfodol Digidol, Prynu'n lleol, Ffiws, Arfor | Darparwyr amrywiol | Cyngor Gwynedd, Llywodraeth Cymru | Gweithredol | Bl 1-2 |
| | 6.8 | Rhaglen STYB Llechi Cymru | Cyngor Gwynedd | CADW, Grŵp Llechi Lleol | Gweithredol | Bl. 1-2 |
| | 6.9 | Ein Dynodiad, Ein Balchder, Ein Dyfodol | Cyngor Gwynedd | Loteri cenedlaethol, Grŵp Llechi Lleol | Datblygol | Bl. 1-2 |
| | 6.10 | Menter y Glan - Cynllun Siop Cymunedol Pennal | Menter y Glan | | Datblygol | Bl 1-2 |

# CYNLLUN GWEITHREDU (PARHAD)



Rhagwelir y bydd cyfle i adolygu trefniadau cydweithio rhwng sefydliadau gweithredol yn yr ardal. Drwy weithio mewn partneriaeth bydd cyfle i gyd-lynu gweithgareddau isod, ac i ymateb i fylchau drwy gynllunio gweithgareddau ychwanegol

| Prif Fater | Rhif | Prosiect | Arwain | Partneriaid | Statws | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **B7. Cynlluniau ar gyfer darparu gweithgareddau cymunedol a chefnogi pobl ifanc** | 7.1 | Clwb Ffermwyr Ifanc Bryncrug | CFFI Meirionydd | | Gweithredol | Bl. 1-2 |
| | 7.2 | Clwb ieuenctid Bryncrug | Canolfan Bryncrug | | Gweithredol | Bl. 1-2 |
| | 7.3 | Cae Pel-droed Aberdyfi | Cyngor Cymuned Aberdyfi | Clwb Golff | Gweithredol | Bl. 1-2 |
| | 7.4 | Cynllun Maes Chwarae Aberdyfi | Cyngor Cymuned Aberdyfi | | paratoi | bl. 3-5 |
| | 7.5 | Cwt cychod a chuddfan adar | Ymddiriedolwyr Ynysmaengwyn | | Rhagbaratoi | Bl. 1-2 |
| | 7.6 | Adnewyddu Eglwys Sant Cadfan a mynwent | Ardal gweinidogaeth Bro Ystumanner | Esgobaeth Bangor | Rhagbaratoi | Bl. 3-5 |
| | 7.7 | Pontydd newydd Rhaeadr Dolgoch | Cyngor Cymuned Bryncrug | | Rhagbaratoi | Bl. 3-5 |
| | 7.8 | Toiledau cyhoeddus Aberdyfi | Cyngor Cymuned Aberdyfi | Cyngor Gwynedd | Rhagbaratoi | Bl 3-5 |
| | 7.9 | Sgwrs a peint neu banad | Aberdyfi Community Projects | Perthyn, Aberdyfi Advertising and Improvements Committee | Gweithredol | Bl. 1-2 |
| | 7.10 | Prosiect Wagon Abergynolwyn | RheilffordTal-y Llyn | Cyngor Cymuned Abergynolwyn | Datblygol | Bl. 1-2 |
| | 7.11 | Datblygu Sied Egryn yn Llanegryn | Neuadd Egryn | | Gweithredol | Bl 1-2 |
| | 7.12 | Uwchraddio cae hoci | Clwb Hoci Dysynni | Byw'n Iach | Gweithredol | Bl 1-2 |

# CYNLLUN GWEITHREDU (PARHAD)



Rhagwelir y bydd cyfle i adolygu trefniadau cydweithio rhwng sefydliadau gweithredol yn yr ardal. Drwy weithio mewn partneriaeth bydd cyfle i gyd-lynu gweithgareddau isod, ac i ymateb i fylchau drwy gynllunio gweithgareddau ychwanegol

| Prif Fater | Rhif | Prosiect | Arwain | Partneriaid | Statws | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **B8. Cynlluniau i sicrhau gwaith a swyddi gwerth uchel** | 8.1 | Pecyn eiddo gwag Stryd Fawr | Cyngor Gwynedd | | Datblygol | Bl. 1-2 |
| | 8.2 | Gwynedd Lewyrchus – Cefnogi Busnesau | Cyngor Gwynedd | Amrywiol | Gweithredol | Bl. 1-2 |
| | 8.3 | Menter y Glan - cynllun uwchraddio ystafelloedd aros | Pwyllgor Menter y Glan | | Gweithredol | Bl. 5+ |
| **B9. Cyflwyno deddfwriaeth i reoli'r maes tai haf ac ail gartrefi yn effeithiol** | 9.1 | Gwynedd Glyd – Premiwm Treth Cyngor | Cyngor Gwynedd | | Cynllun sirol sydd yn weithredol | Bl 1-2 |
| | 9.2 | Gwynedd Glyd - Cyfarwyddyd Erthygl 4 | Cyngor Gwynedd | Ardal Cynllunio Cyngor Gwynedd | Rhagbaratoi | Bl 1-3 |
| | 9.3 | Gwynedd Glyd - Cyfarwyddyd Erthygl 4 | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | Ardaloedd o fewn y Parc Cenedlaethol | Rhagbaratoi | Bl 1-3 |
| **B10. Ardal yn fwy gwyrdd - ynni adnewyddol, lleihau'r defnydd o blastig, pwyntiau gwefru ceir, cynlluniau plannu coed ac ati** | 10.1 | Gwaith i hyrwyddo bioamrywiaeth a gwarchod yr amgylchedd | Aberdyfi Climate and Biodiversity Action Group | | Gweithredol | Bl. 5+ |
| | 10.2 | Erydiad arfordirol Aberdyfi | Cyngor Cymuned Aberdyfi | Cyngor Gwynedd, CNC, Parc Eryri, Clwb Golff | Datblygol | bl. 5+ |
| | 10.3 | Prosiect mesurau ynni adnewyddol Eglwys babyddol Tywyn | Eglwys babyddol Tywyn | | Gweithredol | 1-2 |
| | 10.4 | Monitro a chynnal amddiffynfeydd llifogydd Tywyn | Cyngor Gwynedd (YGC() | Llywodraeth Cymru | Gweithredol | Bl 1-2 |
| **B11. Cynlluniau i gryfhau'r darpariaeth gofal i bobl hyn a phobl fregus** | 11.1 | Darpariaeth yn Neuadd Pendre Tywyn | Fforwm pobl hyn Gwynedd | Neuadd Pendre | Gweithredol | 1-2 |
| | 11.2 | Gwynedd Oed Gyfeillgar (Cynllun Sirol) | Cyngor Gwynedd | Ystod o sefydliadau a grwpiau | Datblygol | Bl 1-2 |

# CYDLYNU A MONITRO



Bwriad y Cynllun Gweithredu yw ymgorffori prosiectau a gweithgaredd ystod eang o sefydliadau sy'n cyfrannu at adfywio a gwella Ardal Tywyn& Bro Dysynni. Mae hon yn ddogfen fyw, a bydd yn cael ei diweddaru o bryd i'w gilydd.

Fel rhan o'r Fframwaith Adfywio, bydd trefniadau ar gyfer monitro a chydlynu'r rhaglen waith yn cael eu sefydlu yn ardal Tywyn& Bro Dysynni, gan ystyried strwythurau a threfniadau cydweithio presennol.

Bydd adroddiad blynyddol byr yn cael ei baratoi gan gynnwys diweddariad ar y cynllun gweithredu a'r holl brosiectau cysylltiedig, ac unrhyw gynnydd yn ystod y cyfnod.




Diolch am gyfraniadau cynrychiolwyr o sefydliadau lleol Tywyn & Bro Dysynni yn cynnwys :

- Cyngor Tref Tywyn
- Cyngor Cymuned Aberdyfi
- Cyngor Cymuned Pennal
- Cyngor Cymuned Llangylenin
- Cyngor Cymuned Llanegryn
- Cyngor Cymuned Llanegryn
- Cyngor Gymuned Bryncrug
- Rheilffordd Talyllyn
- Bro Ysytumanner (Ardal Genhadaeth; eglwysi)
- Neuadd Pendre Tywyn
- Neuadd Bentref Aberdyfi
- Canolfan Pennal
- Y Ganolfan, Llwyngwril
- Neuadd Egryn, Llanegryn
- Shed Egryn, Llanegryn
- Y Ganolfan, Abergynolwyn
- Literary Institute Aberdyfi
- Clwb Pel Droed Tywyn a Bryncrug
- Clwb Hwylio Dyfi
- Clwb Golff Aberdyfi
- Clwb Ffermwyr Ifanc Bryncrug
- Tywyn Chambare of Tourism & Commerce
- Y Gymdeithas Hanes Tywyn a'r Cylch
- Greener Tywyn
- Tywyn Garden Society/Club
- Community projects Ltd
- Egni Abergynolwyn
- Rotary Club
- Magic Lantern Cinema
- Tywyn Baptist Church
- Aberdyfi Advertisements and Improvements Committee
- Tyfu Dyfi